



# Astudiaeth Enghreifftiol Cyngor Cymuned Parc Caia



## Cip cyflym

Mae Cyngor Cymuned Parc Caia yn darparu gwasanaeth cynghori rhad ac am ddim, cyfrinachol i boblogaeth o tua 13,000 o bobl ar draws pump ward etholiadol yn Wrecsam. Bu'r gwasanaeth ar gael ers mwy nac 20 mlynedd yn ddi-dor, a hyd y gwyddom hwn yw'r unig Gyngor Tref neu Gymuned yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth o'r fath.

## Effaith yn y Gymuned

- Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau symiau sylweddol o arian, sef £1,578,777.74 i gleientiaid, yn cynnwys £1,424,039.15 yn fudd-daliadau ariannol parhaus a £154,738.59 mewn taliadau untro wedi'u hól-ddyddio.
- Cafodd cleientiaid fwy o sefydlogrwydd ariannol a gwell llesiant, gan leihau lefelau straen a chaledi yn un o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
- Cafodd cleientiaid fwy o sefydlogrwydd ariannol a gwell llesiant, gan leihau lefelau straen a chaledi yn un o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
- Trwy gynorthwyo gydag apeliadau a thribiwnlysoedd, helpodd y gwasanaeth rwystro digartrefedd, atal dyledion rhag tyfu ac osgoi eithrio ariannol

"Mae'r gwasanaeth yn anadl einioes i lawer o drigolion Parc Caia, sy'n gymuned sy'n delio gyda materion cymhleth o ran tlodi ac amddifadedd".

Andrea Evans, Clerc/SAC  
Cyngor Cymuned Parc Caia

## Heriau

Roedd y Cyngor yn cydnabod yr heriau a'r pwysau y mae teuluoedd yn Wrecsam yn eu hwynebu, ac yn enwedig felly yn Wardiau Queensway a Wynnstay, sy'n 1af ac 2il ar gyfer amddifadedd lluosog fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru ac sydd ymhlith y 10% uchaf o ran prinder incwm ar gyfer plant yng Nghymru. Mae llawer o drigolion yn cael anawsterau gydag incwm isel, dyledion, a diffyg cyswllt digidol, sy'n arwain at fwy o alw am gymorth.

## Datrysiadau

- Mae tîm bach o Weithwyr Cynghori ymroddedig y Cyngor Cymuned yn darparu cefnogaeth ddi-duedd a chyfrinachol i drigolion Parc Caia. Maen nhw'n cynorthwyo gyda nifer o faterion gwahanol, gan gynnwys budd-daliadau lles, dyledion, tai, hawliau defnyddwyr, a Chredyd Cynhwysol. Mae gan y gwasanaeth hawl hefyd i roi talebau banciau bwyd yn y fan a'r lle i drigolion cymwys adeg argyfwng a gallant hefyd ddarparu cynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd ac apeliadau pan mae angen.
- Mae cymorth ar gael trwy drefnu ymgynghoriadau ffôn wedi'u trefnu ymlaen llaw, neu apwyntiadau wyneb yn wyneb wedi'u trefnu ymlaen llaw yn swyddfa'r Cyngor. Gall trigolion drefnu apwyntiad ar y ffôn, trwy ebost, neu trwy fynd i swyddfeydd y Cyngor.



Cyngor ar fudd-daliadau a dyledion



Talebau banciau bwyd




Cyngor tai a defnyddwyr







Tribiwnlysoedd ac apeliadau

- Chwaraeodd y gwasanaeth rôl allweddol yn 2023/24, gan gefnogi 341 o gleientiaid a thrin 586 o achosion. Mae nifer uchel yr achosion yn amlygu natur hanfodol y gwasanaeth, gan fod llawer o gleientiaid angen cymorth gyda nifer o faterion, ac mae hynny'n atgyfnerthu'r angen am gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr.
- Mae'r Gwasanaeth Cynghori yn gweithio'n agos gyda nifer o gyrff gwahanol, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, Banc Bwyd Wrecsam, swyddfeydd tai lleol, a gwasanaethau cefnogaeth gymunedol, er mwyn darparu cymorth cydlynol a sicrhau bod cleientiaid yn cadw rheolaeth ar y mathau o gymorth sydd ar gael iddynt.
- Mae'r dull cydweithiol hwn yn gwella'r cymorth sydd ar gael i drigolion, ac yn mynd i'r afael ag anghenion o bob math yn effeithiol.

# Cyfanswm y Budd-daliadau a Hawliwyd i Drigolion



## Cyllid & Grymoedd

-  Mae holl gostau'r gwasanaeth yn cael eu cyllido gan Gyngor Cymuned Parc Caia, a gweithredodd yn 2023/24 gyda chyllideb o £96.3K, sef 38% o incwm praesept y Cyngor. Mae hefyd yn darparu sesiwn wythnosol ar gyfer Cyngor Cymuned Offa, sy'n talu am gostau'r sesiwn honno.
-  Mae'r arian yn cynnal agweddau hanfodol o'r gwasanaeth, gan gynnwys cyflogau staff, costau gweinyddol, seilwaith TG, a meddalwedd rheoli achosion. Trwy fuddsoddi yn y gwasanaeth hwn, mae'r Cyngor yn gofalu fod trigolion yn gallu derbyn cymorth hollbwysig, gan helpu wynebu heriau lles, lleddfau caledi ariannol, a gwella llesiant yn gyffredinol. Mae'r ymrwymiad hwn yn galluogi'r Cyngor i chwarae rôl ragweithiol yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned a chryfhau cynlluniau lles lleol.
-  Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl lleol. Mae bod yn gymwys i gael y grym cymhwysedd cyffredinol (GPOC) yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau weithredu. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio os na chafodd cymhwysedd ar gyfer GPOC ei gadarnhau, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw a gofyn am gyngor ar gyfreithlondeb y cynigion er mwyn osgoi gweithredu y tu hwnt i'w grymoedd.
-  Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru [gweinydd@unllaiscymru.cymru](mailto:gweinydd@unllaiscymru.cymru)



## Y Dyfodol

Wrth i gostau byw godi a heriau economaidd gynyddu, mae disgwyl i'r galw am y gwasanaeth hwn gynyddu. Mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio cynnal ac ehangu'r gefnogaeth trwy chwilio am gyllid allanol, gwella mynediad digidol, gwneud mwy i gyrraedd trigolion bregus, a chryfhau partneriaethau er mwyn creu system o gefnogaeth holistaidd.

## Eisiau Gwybod Mwy?

Am ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn::



[CoLC@onevoicewales.wales](mailto:CoLC@onevoicewales.wales)



<https://bit.ly/3KYHftK>